# Disgrifiad Swydd

## Cyfarwyddwr Cymunedau

**Yn adrodd i:** Brif Weithredwr y Grŵp

**Yn atebol i:** Fwrdd Grŵp Barcud

**Rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol – (Yn Dibynnu ar Adolygiad):** Pennaeth Tai a Chefnogaeth x2, Rhai sy'n cefnogi'r Swyddogion Gweithredol / Cynorthwy-ydd Cyfreithiol, Y Gymdeithas Gofal, rheolwyr / swyddogion arweiniol Gofal a Thrwsio Powys.

**Allanol:** Tenantiaid, Grŵp Partneriaeth Tenantiaid Barcud, Cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yng Nghymru, sefydliadau sy'n darparu tai yn yr Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid, Llywodraeth Cymru, TPAS a CCC.

**Mewnol:** Cydweithwyr, Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, Isgwmnïau'r Gymdeithas – Y Gymdeithas Gofal a Gofal a Thrwsio ym Mhowys.

**Tîm:** Gwasanaethau Tai a Chefnogaeth, Y Gymdeithas Gofal, Gofal a Thrwsio ym Mhowys

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd:

- Darparu arweinyddiaeth strategol a chyfrifoldeb gweithredol dros ddatblygu a chyflawni strategaeth i greu cymunedau brwd a chyflawniad a pherfformiad gwasanaethau Tai a Chefnogaeth Barcud o ddydd i ddydd, yn ogystal â rheolaeth Y Gymdeithas Gofal a Gofal a Thrwsio Powys.
- Byddwch yn sicrhau bod cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy o ansawdd da yn parhau i fod ar gael, gan ddeall yr angen i ddatblygu a chefnogi pobl hapus a sicr eu sefyllfa.

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Allweddol:

**Arweinyddiaeth Strategol**

- Arwain ar gefnogi a hyrwyddo ffocws ar osod y tenant a chymunedau'n wirioneddol wrth graidd popeth a wnawn. Arweinydd cryf, â'r gallu i osod gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau posib i'n tenantiaid.
- Deall yr angen a chreu mewnwelediadau ac amodau i alluogi Barcud i ddarparu gwell cartrefi, cymunedau cryf a sylfeini cadarn gan feithrin diwylliant o berfformiad uchel â grymuso, ymgysylltu a chynhwysiant wrth ei graidd a chan sicrhau bod ein tenantiaid a'n cwsmeriaid wrth graidd penderfyniadau a strategaethau.
- Darparu mewnwelediad sy'n sefydlu anghenion o ran rheoli tai a chefnogi tenantiaid, gan gynnwys rhoi cyngor strategol a manwl i Brif Weithredwr a Bwrdd y Grŵp.
- Arwain pobl a pherfformiad uchel ar draws y Gyfarwyddiaeth a chyfrannu ar lefel strategol at reolaeth gyflawn busnes y Grŵp fel aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.
- Hybu a chefnogi diwylliant lle bydd pobl a chymunedau'n cyflawni ac yn ffynnu.

**Cartrefi Diogel**

- Gosod gweledigaeth a strategaeth ar gyfer darparu profiad rhagorol i denantiaid a sicrhau bod ein harferion a'n prosesau'n cyflawni lefelau uchel o fodlonrwydd, gan adlewyrchu safbwyntiau ac anghenion tenantiaid a chan sicrhau bod atborth gan denantiaid yn cael ei ddefnyddio i siapio a dylanwadu ar ein strategaeth.
- Gwybodaeth gref o'r sector dai a phrofiad o ddarparu ymagweddiad blaengar at wasanaethau tai, gyrru newid diwylliannol, gwella darpariaeth gwasanaethau, a hyrwyddo arloesi i wasanaethu anghenion tenantiaid a chymunedau Barcud yn well.
- Bod yn arbenigwr mewnol cyfrifol am swyddogaethau Tai a Chefnogaeth Barcud, gan gynnwys gweithgareddau dau o dri isgwmni Barcud – Y Gymdeithas Gofal a Gofal a Thrwsio Powys.
- Datblygu cydberthynasau cryf â rhanddeiliaid allanol, gan hyrwyddo gweithgareddau Barcud a defnyddio'r cydberthynasau hyn i ddarparu gwasanaethau Rheoli Tai cydgysylltiedig.
- Darparu ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant i wella ein gwasanaethau a sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion unigol ein tenantiaid a'n cwsmeriaid.
- Goruchwylio gweithgareddau Barcud o ran galluogi tai gwledig, gan sicrhau bod y Gymdeithas yn ymgymryd â mentrau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy yn ein cymunedau lleol.
- Goruchwylio a sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio o safbwynt rheoli tai a diogelwch tenantiaid â'r holl ofynion statudol, rheoleiddiol, a deddfwriaethol a bod diogelwch tenantiaid a chwsmeriaid yn flaenllaw ym mhenderfyniadau a diwylliant y sefydliad.

**Pobl Hapus**

- Sicrhau bod Barcud yn ceisio darparu mentrau a gwasanaethau sy'n helpu tenantiaid i gadw a chynnal eu tenantiaethau ac mai'r dewis olaf un yw troi at gamau cyfreithiol yn y ffordd y bydd y Gymdeithas yn ymdrin â Rheoli Tai.
- Sicrhau ein bod yn darparu mynediad rhwydd ar gyfer tenantiaid, dewis yn y modd y byddant yn ymgysylltu â ni a'n bod yn cyfathrebu'n rhagweithiol drwy gydol eu trafodiadau gyda ni.
- Sicrhau bod y ffordd y byddwn yn ymdrin ag atborth tenantiaid yn anelu at ddeall anghenion amrywiol tenantiaid a datrys problemau'r tro cyntaf, bob tro.
- Sicrhau bod cymorth i denantiaid fwyafu'r incwm sydd ar gael iddynt ag ymyriad ac arweiniad uniongyrchol gan Dîm mewnol Cynnal ac arwyddbostio at wasanaethau cefnogaeth allanol eraill fel a fo'n berthnasol.

**Bwrdd Isgwmnïau a'r Grŵp**

- Sicrhau bod Bwrdd Barcud a byrddau'r isgwmnïau'n cael eu cefnogi drwy ddarparu'r holl wybodaeth ac arweiniad y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau'n llawn ac yn effeithiol a bod Bwrdd y Grŵp yn gallu rhoi tystiolaeth o gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethiant CCC.
- Arwain ar gydweithio rhwng Barcud a 2 o'i isgwmnïau – Y Gymdeithas Gofal a Gofal a Thrwsio Powys – gan reoli'r cydberthynasau i sicrhau bod gwasanaethau ar y cyd yn cael eu darparu lle bynnag y bo modd, a hynny'n gwneud yn fawr o gyfleoedd i gynhyrchu gwerth ychwanegol / cydfuddion o'r gwasanaethau cefnogaeth a gynigir gan y 2 isgwmni hyn.
- Darparu arweinyddiaeth a chyngor strategol i'r Gymdeithas Gofal a Gofal a Thrwsio Powys, gan ddefnyddio gwahanol swyddogaethau Barcud er mwyn cyngor manwl lle bo angen**.**

**Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn o weithdrefnau a thasgau a gyflawnir gan ddeiliad y swydd. O ystyried y bydd yr hyn y mae gofyn i'r gwasanaeth ei wneud yn newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bo'n briodol gan Brif Swyddog Gweithredol y Grŵp.**

# Manyleb Y Person

**Mae'r holl feini prawf yn <u>hanfodol</u> oni nodir yn wahanol**

## Cymwysterau:

- Mae cymhwyster lefel gradd mewn pwnc cysylltiedig â thai neu brofiad cyfatebol yn hanfodol
- Tystiolaeth o ymroddiad i ddatblygiad proffesiynol
- Mae cymhwyster rheolaeth/Proffesiynol perthnasol (L5+) yn ddymunol

## Profiad a gwybodaeth:

- Profiad sylweddol o weithio ar lefel uwch
- Sgiliau arweinyddol rhagorol a gweledig â hanes blaenorol o arwain timau uchel eu perfformiad, brwdfrydig ac wedi'u grymuso.
- Mae lefel uchel o ddealltwriaeth a gwybodaeth o dai cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig yn hanfodol - yn ddigonol i arwain a datblygu ymhellach wasanaethau tai'r Grŵp.
- Cyflawniad a hanes blaenorol sylweddol mewn gwireddu perfformiad uchel mewn amgylchedd tai.
- Nodi a gweithredu ar risgiau, tueddiadau a chyfleoedd am dwf, gan sicrhau bod strategaethau a chynlluniau cadarn yn cael eu cytuno a'u rheoli i gyflawni canlyniadau gwych i'r gymuned.
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o lywodraethiant corfforaethol a gofynion gweithredu mewn amgylchedd a reolir yn ddwys.
- Profiad helaeth o weithio'n effeithiol gyda byrddau a rhanddeiliaid i sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol a deddfwriaethol, cyflawni amcanion strategol, a nodi a rheoli risgiau i'r sefydliad, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch.
- Hygrededd a phrofiad o adeiladu cydberthynasau llwyddiannus â phartneriaid allweddol.
- Hanes blaenorol o osod a chyrraedd safonau uchel o berfformiad a defnyddio cydymffurfiaeth, metrigau, a meincnodi i godi safonau a chefnogi cyflawni cynlluniau busnes corfforaethol.
- Gallu wedi'i brofi i gyflawni newid sefydliadol, gan gynnwys newid diwylliannol a chreu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol sy'n cofleidio EDIB â chanlyniadau rhagorol.
- Ymwybyddiaeth ariannol a masnachol; yn gallu deall a chloriannu cyllidebau, cynlluniau busnes, cyfrifon blynyddol, rheolaeth adnoddau ariannol a metrigau gwerth am arian. Yn gallu cydbwyso mesurau effeithlonrwydd ariannol â darparu'r gwasanaethau a'r canlyniadau gorau posib i denantiaid a chymunedau.
- Gallu wedi'i brofi i arwain timau mawr cymhleth.
- Dealltwriaeth o'r heriadau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau allweddol i gymunedau gwledig a gwerthfawrogiad ac ymroddiad i'r rhan allweddol y mae sefydliad angori megis Barcud yn ei chwarae yn y gymuned.

## Sgiliau a Galluoedd:

- Arddull arweinyddol sy'n ysbrydoledig, yn weledig ac yn ysgogiadol.
- Yn creu partneriaethau strategol ac yn adeiladu cydberthynasau cadarnhaol â'r holl randdeiliaid.
- Meddwl strategol: yn craffu ar y gorwel, yn rhagweld ac yn rhagweithiol.
- Hanes blaenorol o arweinyddiaeth a throi cynlluniau'n weithredoedd, arwain a grymuso pobl drwy newid cadarnhaol a'i gyflawni.
- Dylanwad ac effaith; sgiliau rhyngbersonol rhagorol â'r gallu i gyfathrebu, perswadio a dylanwadu ar benderfynwyr allweddol, yn fewnol ac yn allanol fel ei gilydd.
- Cyfathrebwr ardderchog, yn gallu gwrando, rhoi a derbyn atborth yn dda, cyflwyno materion a syniadau cymhleth i wahanol gynulleidfaoedd mewn ffordd groyw, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yn gyfforddus â siarad yn gyhoeddus a chynrychioli ar lefel genedlaethol, yn agored, yn agos-atoch ac yn dringar.
- Gallu i ddehongli a dadansoddi gwybodaeth a data cymhleth.
- Iaith Gymraeg ALTE lefel 3 (dymunol)

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth:

- Yn hyderu bod pobl yn dymuno gwneud gwaith gwych
- Yn sefydlu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn gallu bod ar eu gorau
- Yn ysbrydoli eraill drwy arweinyddiaeth hyderus, cadarnhaol, a gweledig
- Yn annog, yn ymddiried, ac yn grymuso ar yr un pryd â'u dal eu hunain ac eraill yn atebol
- Yn ymroddedig i gynnig lle gwych i weithio fel sail i wasanaeth gwych
- Yn gwerthfawrogi amrywiaeth pobl a barn

## Gwerthoedd personol:

- Yn uniaethu'n agos â'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan y Grŵp a gwerthoedd a gweledigaeth y sefydliad.
- Yn dangos safonau personol uchel, onestrwydd, uniondeb ac empathi.
- Yn meddu ar weledigaeth ac uchelgais dros y sefydliad a'n cymunedau.
- Yn cofleidio dysgu sefydliadol a datblygiad proffesiynol parhaus.